OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2715 (Cy.228)

IECHYD PLANHIGION, CYMRU

Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) (Diwygio) 2007

Gwnaed - - - -	*14 Medi 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Medi 2007*
Yn dod i rym - -	*12 Hydref 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2 a 3(1), (2), (3) a (4) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy (**2**):

Enwi a chychwyn

1. Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) (Diwygio) 2007 a daw i rym ar 12 Hydref 2007.

Diwygiadau i Orchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Iechyd Planhigion (Phytophthora ramorum) (Cymru) 2006(**3**) fel a ganlyn:

(2) Yn erthygl 6 (symud deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n tarddu yng Nghymru neu mewn man arall yn y Gymuned Ewropeaidd neu yn y Swistir), ym mharagraff (2), yn lle "o'r man cynhyrchu" rhodder "o fewn y Gymuned Ewropeaidd".

(3) Yn erthygl 15 (tramgwyddau)—

(a) yn lle is-baragraff (a) o baragraff (1) rhodder-

(**1**) 1967 p. 8; diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) a (2) gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), adran 4(1) ac Atodlen 4, paragraff 8; amnewidiwyd adran 3(4) gan adran 42 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (p. 48).

(**2**) Mae adran 1(2)(b) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967 yn darparu mai'r awdurdod cymwys yng Nghymru a Lloegr at ddibenion y Ddeddf honno yw'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Yn rhinwedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Iechyd Planhigion 1967, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Yna trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny oedd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan OS 1999/672 bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 p.32.

(**3**) 2006/1344 (Cy.134)

"(a) yn ddarostyngedig i baragraff (1A), yn mynd yn groes i erthyglau 3, 4, 5(1), 6, 7(1) neu (3), 8(1) neu 11(1) neu'n methu cydymffurfio â hwy;"; a

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Ni fydd paragraff (1)(a) yn gymwys pan fo unrhyw fath o beth yn cael ei lanio ym Mhrydain Fawr yn groes i waharddiad yn y Gorchymyn hwn."(**4**)

(4) Yn lle Atodlen 1, rhodder—

"ATODLEN 1 Erthyglau 4(a) a 10(1)

Deunydd sy'n dueddol o gael y pla	Gofynion i'w bodloni o ran dyroddi unrhyw dystysgrif ffytoiechydol sy'n mynd gyda deunydd sy'n dueddol o gael y pla (*"y dystysgrif"*)
Acer macrophyllum Pursh. *Acer pseudoplatanus* L. *Adiantum aleuticum* (Rupr.) Paris *Adiantum jordanii* C. Muell. *Aesculus californica* (Spach) Nutt. *Aesculus hippocastanum* L. *Arbutus menziesii* Pursch. *Arbutus unedo* L. *Arctostaphylos* spp. Adans *Calluna vulgaris* (L.) Hull *Camellia* spp. L. *Castanea sativa* Mill. *Fagus sylvatica* L. *Frangula californica* (Eschsch.) Gray *Frangula purshiana* (DC.) Cooper *Fraxinus excelsior* L. *Griselinia littoralis* (Raoul) *Hamamelis virginiana* L.	(a) Naill ai— (i) rhaid i'r dystysgrif gynnwys datganiad ychwanegol bod y deunydd yn tarddu mewn ardal y mae gwasanaeth iechyd planhigion y wlad y mae'r deunydd yn tarddu ohoni ("y gwasanaeth iechyd planhigion perthnasol") yn ei chydnabod yn ardal sy'n rhydd o arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd o Phytophthora ramorumyn, ac yn yr achos hwn rhaid i enw'r ardal y mae'r deunydd yn tarddu ohoni gael ei bennu o dan "tarddle"; neu (ii) rhaid peidio â dyroddi tystysgrif ac eithrio ar ôl i'r gwasanaeth iechyd planhigion perthnasol wirio'n swyddogol, o wneud arolygiadau swyddogol yn ystod cylchred gyflawn olaf llystyfiant y deunydd sy'n dueddol o gael y pla ac sy'n destun y dystysgrif, neu o wneud arbrawf mewn labordy ar symptomau ymddangosiadol o arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd oPhytophthora ramorum, na chanfyddwyd arwyddion o arunigion heb fod yn rhai Ewropeaidd o Phytophthora ramorum ar ddeunydd sy'n dueddol o gael y pla nac ar unrhyw goeden sy'n dueddol o gael y pla yn y man cynhyrchu; a (b) rhaid peidio â dyroddi tystysgrif ac eithrio ar ôl i samplau cynrychioliadol gael eu cymryd o'r planhigion cyn eu hanfon,

(**4**) Mae adrannau 49 a 50 o Ddeddf Reoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p.2) yn darparu yn eu trefn ar gyfer fforffediad nwyddau a fewnforiwyd yn amhriodol ac ar gyfer cosbau am fewnforio nwyddau'n amhriodol.